

Swydd: Rheolwr Prosiect Digidol/Gwe

Lleoliad: Llanelli / Caernarfon / Y Cartref

Cyflog: I'w drafod yn ddibynnol ar profiad



Rydym yn chwilio am reolwr prosiect digidol / gwe i ymuno â'n tîm sydd ar y cynnydd, yn un o asiantaethau digidol mwyaf cyffrous ac amrywiol Cymru.

Bydd rheolwr y prosiect yn gyfrifol am reoli a gweithredu prosiectau digidol amrywiol o ddydd i ddydd, gan gynnwys gwefannau, apiau, ag ymatebion/datrysiadau gwe sy'n canolbwyntio ar gynnwys. Byddwch yn gweithio'n bennaf gyda dylunwyr, datblygwyr a SA (Sicrwydd Ansawdd) i symud prosiectau o'u cynlluniad hyd at eu gweithredu, gan sicrhau bod disgwyliadau cleientiaid yn cael eu cwrdd. Yn dibynnu ar y prosiect bydd gofyn i chi weithio gydag arbenigwyr cynnwys a fideo mewnol, yn ychwanegol â awduron pwnc allanol, ac felly mae gwerthfawrogiad o'r cynnwys yn bwysig ar gyfer y rôl hon. Mae'r mwyafrif o brosiectau yn ddwyieithog neu'n amlieithog ac yn amrywio o ran graddfa o gynulleidfaedd lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol.

Mae hon yn rôl ymarferol sy'n gofyn am lefel dda o wybodaeth dechnegol a rheoli tîm, yn ogystal â gallu rheoli disgwyliadau, cyfathrebu a thrafod gyda chleientiaid, adrodd yn ôl eitemau allweddol i'r busnes, a chymryd rhan gweithredol ac ymarferol gyda'r prosiectau yn ôl yr angen.

Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau

- Dylunio a chynllunio datrysiadau
- Cynhyrchu brîff technegol
- Rheoli cyllideb ac amserlen
- Profi a sicrhau ansawdd
- Rheoli prosiect ac adrodd ar gynnydd
- Rheoli, monitro, ac ysgogi tîm y prosiect
- Cynllunio a chyflawni amserlen, cerrig milltir, a chyllidebau prosiectau
- Gweithredu prosiectau sy'n cael eu rhedeg gan ddefnyddio methodoleg hyblyg (AGILE) pan fo angen
- Cynrychioli ethos ein cwmni gyda chleientiaid newydd a phresennol, gan sicrhau bod pob prosiect yn cyflawni effaith fwyaf i'n cleientiaid o fewn cwmpas eu cyllideb

Sgiliau ofynnol

- Llygaid barcud am fanylion ac angerdd am ddatrys problemau
- Sgiliau blaenoriaethu a threfnu
- Cyfathrebu rhagorol a meddylfryd cydweithredol
- Gwybodaeth dda o arferion gorau technoleg we, UX, dylunio a marchnata
- Profiad gyda methodolegau rheoli prosiect Rhaeadr (Waterfall) ac Hyblyg (AGILE) yn ogystal â gweithrediadau hybrid
- Profiad o ysgrifennu dogfennau cwmpasu gan gynnwys straeon defnyddwyr, datblygu, dadansoddeg, a gofynion profi SA

Profiad dymunol

- Gweithio mewn amgylchedd asiantaeth (llu o brosiectau a chleientiaid)
- Rheoli gwefannau gan ddefnyddio Umbraco yn ddelfrydol
- Defnyddio JIRA neu meddalwedd tebyg ar gyfer rheoli straeon defnyddwyr
- Gweithio gyda chleientiaid y sector preifat a'r sector cyhoeddus

Anfonwch eich CV i wneud cais, neu os hoffech ragor o wybodaeth, e-bostiwch swyddi@tinint.com